1934) a hynny hefyd yn ymwneud ag osgoi talu treth (y tro hwnnw, am arian pridwerth a gawsai ar ôl cipio rhywun!). Treuliodd ei amser yng ngharchar Leavenworth yn dysgu ychydig o *'English and geometry'*. Bu farw yn 1965 yn 66 oed. Ar ôl blynyddoedd o fethiant, aeth yr heddlu i'w gartref gyda chyhuddiad o anudoniaeth yn ei erbyn, dim ond i'w ddarganfod yn farw ar ôl hwfro'r carpedi!

Es i Chicago yn 1983 i barhau gyda'n gwaith ymchwil. Yno mi gwrddais â sawl un a oedd wedi chwarae rhannau allweddol ym mywyd Humphreys. Yr oedd yn anodd iawn cael unrhyw un i'w gollfarnu. Roedd hyn yn ddisgwyliedig cyn belled ag yr oedd Irvine Weiner yn bod oherwydd ei fod ef wedi bod yn asiant mechnïaeth ac yn gyfaill agos i Humphreys. Mwy o syndod oedd clywed moliant pur digymysg gan William Roemer, FBI, y dyn a fu'n hela Humphreys am bron ugain mlynedd (heb lwyddiant). Hedfan i lawr i Oklahoma wedyn, i gyfarfod â Luella, merch Murray Humphreys. Wrth iddi ein gyrru ni o'r maes awyr allan i'w *ranch* anferthol (a adeiladwyd gan ei thad fel noddfa), siaradodd yn ddi-stop ac o'r foment honno, yr oedd yn amlwg fod cyfle gyda ni i wneud ffilm eithriadol. Yr oedd y *ranch* yn cael ei diogelu yn drylwyr, gan ei bod wedi ei hamgylchu â ffens drydan a phaciau o gŵn mawr gyda dannedd crocodeilaidd. Yr oedd y creaduriaid yma yn cyfarth yn erchyll. Da gennyf weld fod *'Big Tony'*, y cawr a oedd yn gyfrifol am ddiogelu Luella, yn llawer mwy croesawgar na'r cŵn! Yr oedd Luella (enw sy'n tarddu o'r Llewellyn yn enw ei thad) yn gefnogol iawn i'r syniad o wneud ffilm. Roedd ganddi gasgliad enfawr o luniau mewn blychau mawr ac fe gawsom ganiatâd i ddewis pa rai a fyddai'n addas i'r ffilm. (Ond yr oedd hyn ar yr amod fod rhai ohonynt yn waharddedig oherwydd eu cynnwys.) Roedd sawl llun yn dangos ei thad yng nghwmni actorion enwog Hollywood a gwleidyddion na fuasent yn hapus i'w cysylltiad ag ef gael ei ddatgelu. Ar wahân i'r lluniau, mi ges i afael ar ffilmiau 16mm (amatur) a wnaethpwyd gan Humphreys ei hunan cyn y rhyfel. Mewn un olygfa gwelir Humphreys yn mynd gyda Luella (yn blentyn pum mlwydd oed) i'r gwely ac yn mynnu ei bod yn gweddïo cyn mynd i gysgu! Mewn ffilm arall, yr ydym yn gweld y teulu ar eu gwyliau yn Hawaii. Ar y ffordd allan, dangosir Humphreys a'i wraig yng nghwmni Fay Wray, actores fyd-enwog ar y pryd oblegid y ffilm *'King Kong'*. Ar y ffordd adref maent yn pasio carchar Alcatraz, ger San Francisco, lle




*Yr awdur yng nghwmni Luella (merch Murray the Hump)*

roedd Capone *('uncle Al')* yn lletya ar y pryd. Dros yr adran hon o'r ffilm roedd Humphreys wedi gosod y gân *'The Gang's all Here!'*

Roedd gweld eiddo Humphreys o gwmpas y tŷ yn beth rhyfedd, a dweud y lleiaf: ei ddodrefn, ei ddillad, ei raseli a, hyd yn oed, ei ddrylliau. Teimlad braidd yn anhyfryd oedd trafod y gynnau, yn enwedig y pistol â'r tair craith arno!

Yn ôl ei ferch, roedd Humphreys yn hynod o falch o'i wreiddiau Cymreig. Yn 1963 cyflawnodd freuddwyd oes o gael ymweld â Chymru. Daeth yma o'r Eidal lle'r oedd wedi bod yn ymweld ag aelodau tramor y *'syndicate'*. Yn ôl Luella, yr oedd cefn gwlad Cymru yn hudolus i'w thad, ac fe fyddai ef yn siarad yn aml amdani gydol ei fywyd. Mae sawl un sy'n byw yng Ngharno, hyd heddiw, yn cofio'r tri o Americanwyr golygus a haelionus â'u harian. Ond ychydig iawn a wyddai'r trigolion am gefndir yr ymwelwyr. Yn ôl pob tebyg roedd Humphreys yng nghwmni y gyntaf a'r ail o'i wragedd, y ddwy ohonynt yn ffigurau allweddol yn ei yrfa amheus. Yr oedd Mary, y wraig gyntaf (mam Luella) yn hanner *Cherokee*. Byddai hi'n honni ei bod yn dod o linach tywysogesau'r Indiaid, ac roedd Humphreys ei hun yn argyhoeddedig fod gwaed brenhinol yn rhedeg drwy ei wythiennau yntau! Yr ail wraig oedd Betty Jean Vine, cyn-wraig Irving Vine, cyfrifydd y *'mob'*. Gadawodd y dyn hwnnw y byd hwn mewn ystafell yn y Del Prado — un o'r gwestyau yr oedd Humphreys yn berchen arnynt. Pan ddarganfuwyd corff Irving Vine (wedi ei rwymo o'i gorun i'w sodlau), roedd tystiolaeth ddiamau ei fod wedi




*Plac gorau mam Luella.*

dioddef arteithio trwy ymosodiad ar ei rannau tyner gyda morthwyl iâ. Doedd dim amheuaeth mai Humphreys oedd wedi trefnu'r digwyddiad erchyll hwnnw oherwydd steil y llofruddiaeth, ond yr adeg honno byddai gweinyddwyr y gyfraith yn cau eu llygaid ar unrhyw farwolaeth o fewn yr isfyd. Iddynt hwy, roedd hynny'n golygu fod un diafol yn llai i boeni amdano.

Bu gwesty'r Del Prado yn gartref i Brian, tad Humphreys, am gyfnod — un o'r cymwynasau a gafodd ef gan ei fab cyfoethog. Eto, ymhlith yr holl foethusrwydd, roedd pleserau Brian yn syml iawn. Bob diwrnod byddai Humphreys yn anfon *limousine* i'r gwesty i gasglu'r ychydig ddoleri yr oedd ei dad yn eu gwario i roi bet ar y ceffylau. Does fawr ddim yn hysbys am deimladau Brian tuag at yrfa ei fab, nac o ran hynny, tuag at ei fab arall, Ernest, rhaglaw Humphreys. Ond mae'n sicr fod y cyn-ffermwr o'r Castell yn ymwybodol o'u gweithgareddau. Mae'n debyg iawn, hefyd, bod Humphreys yn gwybod peth Cymraeg. Buasai'n anodd iddo ei hosgoi o ystyried y ffaith fod Brian ac Ann yn siarad yr hen iaith â'i gilydd yn y cartref, lawer o'r amser. Yn ôl ei wyres, roedd Brian yn canu ambell gân werin Gymraeg hefyd.

Cyn cyrraedd Cymru bu Humphreys a'r menywod yn trosglwyddo arian llygredig i'w ffrindiau yn Ewrop, wrth ddechrau yn yr Eidal, ac wedyn teithio trwy Ffrainc i'r Swistir a'r banciau mawr. Wythnosau ar ôl i'n rhaglen gael ei darlledu, ac yn rhy hwyr i wneud dim yn ei gylch, fe gysylltodd dyn o'r enw James Hazan â fi. Ef oedd eu *chauffeur* ar y daith honno ac yn eu gyrru nhw bob cam o Naples i Dover. Disgrifiodd ef Humphreys fel dyn hynaws a diwylliedig gyda diddordebau amrywiol. Dyna'r ddelwedd o ddyn busnes cyfreithlon roedd ef wedi'i chreu yn bwrpasol.

Roedd Luella ei hun wedi treulio cyfnod yn yr Eidal (yn dysgu piano clasurol). Yno cyfarfu â Rosano Brazzi, seren byd-enwog y sgrîn, ac un canlyniad i hynny oedd cael mab ganddo. Flynyddoedd yn ddiweddarach, bu Luella hefyd yn teithio i Zurich ond roedd hi'n ofalus i amrywio ei llwybr bob tro. *'Lucky'* Luciano y troseddwr enwog (yr adeg honno yn alltudiedig) oedd un o'i phrif gysylltiadau yn yr Eidal.

Daeth ein ffilm at ei gilydd yn y diwedd er gwaethaf peth oedi oherwydd amharodrwydd cyfreithwyr Frank Sinatra i ganiatáu inni ddefnyddio'i lun gyda Luella (*'Daddy had Frank come to my graduation party . . .'*). Fe fu próblemau eraill i'w gorchfygu er mwyn sefydlu



*Luella a'r actor enwog Rossano Brazzi.*